Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| Cyfarfod:Bwrdd Plismona | |
| Lleoliad:Ystafell Gynadledda SCHTh | |
| Dyddiad:28 Mawrth 2017 | |

| | |
|---|---|
| **Aelodau**: | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh<br>Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA) |
| **Hefyd yn Bresennol**: | Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM)<br>Arolygydd Anthony Evans, Swyddog Staff (AE)<br>Ms Hannah Hyde, Rheolwr Cysylltiadau Cyhoeddus (HH)<br>Mr Hefin Jones, TGach (HJ)<br>Ms Emma Northcote, Plismona Tiriogaethol (EN)<br>Ms Sian George, Plismona Tiriogaethol (SG)<br>Ms Alana Perrin, Plismona Tiriogaethol (AP)<br>Miss Mair Harries, Cymorth Gweithredol, SCHTh (MH) |
| **Ymddiheuriadau**: | Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA) |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 16/3/17 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb** | **Cynnydd** |
| **PB 2129** | **Cam gweithredu: Y PG a CHTh i ystyried y syniad o bodlediad.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2130** | **Cam gweithredu: Cynnal peilot yn SCHTh i gefnogi AD yn eu datblygiadau o ystyried bod oedi yn y proses.** | **Gwrthodwyd** |
| **PB 2131** | **Cam gweithredu: SCHTh i drefnu cyfarfod gyda'r Uwcharolygydd Huw Meredith a Sue Storch.** | **Ar waith** |
| **PB 2132** | **Cam gweithredu: Yr Heddlu i roi diweddariad i CHTh ar Ymgyrch 'Encompass.' Daw'r Bwrdd yn ôl at y mater hwn ymhen pedair wythnos.** | **Ar waith** |
| **PB 2133** | **Cam gweithredu: Mae angen ystyried y materion a godwyd gan y Gwasanaethau Cyfreithiol. Cânt eu bwydo yn ôl i Heddlu De Cymru er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r materion a amlygwyd.** | **Ar waith** |
| **PB 2134** | **Cam gweithredu: Ymateb i Mark Williams gyda llythyr yn nodi bod y mater wedi cael ei godi yn y Bwrdd Plismona.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2135** | **Cam gweithredu: Ymateb i Noethlymuniaeth Prydain gan nodi bod y mater wedi cael ei roi o flaen y PG sydd wedi ei drafod gyda Swyddog** | **Ar waith** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Amrywiaeth yr Heddlu.** | |
| **PB 2136** | **Cam gweithredu: Yn y fframwaith llywodraethu corfforaethol nodir bydd y PG yn cyflwyno adroddiadau sefydliadol ddwywaith y flwyddyn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf i'r bwrdd plismona.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2137** | **Cam gweithredu: Y Prif Swyddog Ariannol i roi diweddariad ar yr adroddiadau gofynnol, fydd yn cael eu cyflwyno ddwywaith y flwyddyn i'r PG.** | **Ar waith** |

| **PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 28/03/17** | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Penderfyniad** | **Crynodeb** | **I'w symud ymlaen gan** |
| **PB T2 29** | **Penderfyniad: Cadarnhaodd y PG ei fod yn fodlon ar y cytundeb.** | **Pennaeth Staff** |

**2. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Plismona a gynhaliwyd ar 16 Mawrth a materion yn codi**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod ac y dylai gyfeirio unrhyw ddiweddariadau i MH.

PB 2123: Trafododd y CHTh gyfarfod blaenorol am Arweinyddiaeth a holodd am sut y dewisir y sawl a gymerai ran. Cafwyd trafodaeth fer am gyfleoedd i'r rheng elwa o ddatblygiad Arweinyddiaeth.

**3. Diweddariad y Prif Gwnstabl**

Rhoddodd y PG drosolwg o faterion sefydliadol, gan gynnwys y ffaith bod 3 aelod o staff wedi cael eu hatal rhag gweithio ar yn o bryd.

Dywedodd y PG ei fod wedi rhoi'r cyfrifoldeb o ddarganfod Cyfleoedd Cydweithredu i'r Brif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Pam Kelly. Gofynnodd y Pennaeth Staff a fyddai modd i'r SCHTh gynorthwyo a phenderfynwyd y byddai unigolion o'r Adran Gwasanaethau cyfreithiol a Chydymffurfiio yn rhan o drafodaethau pellach.

**Cam gweithredu: Sicrhau bod Rachel Jones o'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfio yn rhan o drafodaethau pellach am Gyfleoedd Cydweithredu.**

**Cam gweithredu: Rhoi copi o gynllun y Gweithgor i CHTh yn ystod y cyfnod cyflwyno papurau BAH.**

Cafwyd trafodaeth fer lle canmolwyd y Tîm Gwella Parhaus a'r Tîm Cynllun Heddlu a Throsedd am eu gwaith.

Rhoddodd y PG drosolwg o faterion gweithredol gan gynnwys ymdrech ar y cyd gan grwpiau amlasiantaethol i ddarganfod person coll ym Mhowys a dal lladron wrth iddynt geisio dwyn yn Llandrindod. Cafwyd canmoliaeth am hyn.

Gofynnodd CHTh am sicrwydd gan y PG na fyddai newidiadau i'r rota yn effeithio ar flaenweithgarwch. Cafodd gadarnhad na fyddai newidiadau yn effeithio ar niferoedd y swyddogion ar ddyletswydd. Dywedodd y PG mai saith heddlu yn y wlad yn unig sydd wedi cynyddu ei staff rheng flaen a bod Heddlu Dyfed-Powys Police yn un o'r rhain.

**4. Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Trafododd CHTh mynychu Panel Heddlu a Throseddu Mawrth 27. Awgrymodd y PG bod modd i'r Heddlu gymryd rhan drwy groesawu Aelodau Panel newydd o bosib. Dywedodd y Pennaeth Staff wrth y Bwrdd bod y Panel wedi gofyn am seminar hyfforddiant ym mis Medi.

**Cam gweithredu: Yr Heddlu i baratoi cyflwyniad ar gyfer seminar hyfforddiant Panel yr Heddlu a Throseddu ym mis Medi.**

Dywedodd y Pennaeth Staff bod gwaith posib gyda Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu wedi cael ei gynnig i Banel yr Heddlu a Throseddu. Dywedodd y Pennaeth Staff hefyd ei bod yn cyfarfod â Robert Edgecombe am drafodaethau pellach. Gofynnodd y PG am gael cysylltu'r cyfarfod hwnnw â'i gyfarfod gyda'r Prif Uwcharolygydd Claire Parmenter ac Arolygydd Jolene Mann.

**Cam gweithredu: Y Pennaeth Staff i ymgysylltu â'r Heddlu ynghylch Panel yr Heddlu a Throseddu.**

Holodd CHTh am gynhadledd SCCH a chafodd gadarnhad gan y PG y byddai yn digwydd yn yr Hydref.

**Materion yn codi**

**Canolfan Gyfeirio Ymosodiadau Rhyw (SARC)**

Nododd CHTh ei fod wedi derbyn Adroddiad Cau Prosiect a bod cwestiynau ganddo am ofal paediatreg. Dywedodd CHTh bod nifer o gwestiynau y dymunai gael atebion iddynt. Gofynnodd y PG am amser i archwilio'r llythyr ymhellach a phenderfynwyd caniatáu i'r Cyfarwyddwr Comisiynu ddrafftio ymateb ar y cyd ynghylch y mater.

**Cam gweithredu: Y Cyfarwyddwr Comisiynu i ddrafftio ymateb ar y cyd i'r ddogfen Canolfan Cyfeirio Ymosodiadau Rhyw .**

**Llywodraethu**

Cafwyd trafodaeth fer am adolygu'r Bwrdd Llywodraethu. Dywedodd y PG wrth y Bwrdd ei fod wedi trafod y mater gyda'r Dirprwy Brif Gwnstabl a gwahodd y Pennaeth Staff i ymuno yn y drafodaeth.

**Cam gweithredu: : Y Pennaeth Staff i ymuno â'r Dirprwy Brif Gwnstabl i drafod adolygu'r Bwrdd Llywodraethu.**

**Adborth o'r Cynllun Heddlu a Throseddu**

Dywedodd y Pennaeth Staff bod hi wedi gofyn i'r tîm Heddlu a Throseddu am adborth ar y broses Gynllunio ac wedi diweddaru'r Bwrdd.

Trafododd y Bwrdd y posibilrwydd o ffurfio timau tebyg yn y dyfodol yn dilyn awgrymiadau adrodd yn ôl gan y tîm Heddlu a Throseddu.

**Gwefan Heddlu Dyfed-Powys/ SCHTh**

Yn bresennol yn y cyfarfod oedd Hefin Jones, Emma Northcote, Sian George, Alana Perrin a Hannah Hyde.

Cyflwynodd EN ochr yr Heddlu o'r wefan i'r Bwrdd gan gynnwys diweddariadau am droi adran Pwy 'di Pwy o'r wefan yn 'dudalen fyw' yn dangos dolenni i dudalennau cyfryngau cymdeithasol y PG. Bydd tudalen 'Ymunwch â ni' yn dangos tudalen ar y cyd yn cynrychioli'r heddlu a SCHTh. Cyflwynodd HH wedyn ddiweddariad byr ar wefan SCHTh a ddangosodd wybodaeth debyg. Rhannodd EN luniau a fydd ar y wefan a gofynnodd am arweiniad gan y PG ar ymddangosiad swyddogion.

**Cam gweithredu: Y PG i roi arweiniad i 'r tîm dylunio'r wefan am luniau'r swyddogion.**

**Cam gweithredu: HH i gysylltu â Phanel yr Heddlu a Throseddu am ddolen i'w gwefan.**

**Cam gweithredu: Yr Heddlu i roi amserlen o Gyfarfodydd Cyhoeddus i Swyddog Ymgysylltu SCHTh o fis Medi ymlaen.**

**Unrhyw fater arall**

**Gwasanaeth Gudd-wybodaeth Balisteg Genedlaethol (NABIS)**

Cafwyd trafodaeth fer am ddogfen y Wasanaeth Gudd-wybodaeth Balisteg Genedlaethol.

**Penderfyniad: Cadarnhaodd y PG ei fod yn hapus gyda'r cytundeb.**

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 28/03/17 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb** | **I'w symud ymlaen gan** |
| **PB 2138** | **Cam gweithredu: : Sicrhau bod Rachel Jones o'r Adran Gwasanaethau Cyfreitiol a Chydymffurfio yn rhan o drafodaethau pellach am Gyfleoedd Cydweithredu .** | **Pennaeth Staff** |
| **PB 2139** | **Cam gweithredu: Rhoi copi o gynllun y Gweithgor i CHTh yn ystod y cyfnod cyflwyno papurau BAH** | **PG** |
| **PB 2140** | **Cam gweithredu: Yr Heddlu i baratoi cyflwyniad ar gyfer y seminar hyfforddiant Panel yr Heddlu a throseddu ym mis Medi.** | **CHTh** |
| **PB 2141** | **Cam gweithredu: Y Pennaeth Staff i ymgysylltu â'r Heddlu ynghylch Panel yr Heddlu a Throseddu.** | **Pennaeth Staff** |
| **PB 2142** | **Cam gweithredu: Y Cyfarwyddwr Comisiynu i ddrafftio ymateb ar y cyd i'r ddogfen Canolfan Cyfeirio Ymosodiadau Rhyw.** | **DoC** |
| **PB 2143** | **Cam gweithredu: Pennaeth Staff i ymuno â'r Dirprwy Brif Gwnstabl i drafod adolygu'r Bwrdd Llywodraethu.** | **Pennaeth Staff** |
| **PB 2144** | **Cam gweithredu: Y PG i roi arweiniad i'r tîm cynllunio'r Wefan am luniau swyddogion.** | **PG** |
| **PB 2145** | **Cam gweithredu: HH i gysylltu â Phanel yr Heddlu a Throseddu am y ddolen i'w gwefan.** | **HH** |
| **PB 2146** | **Cam gweithredu: Yr Heddlu i roi amserlen o Gyfarfodydd Cyhoeddus i Swyddog Ymgysylltu SCHTh o fis Medi ymlaen .** | **PG** |